



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU

GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING

SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

**11 Mehefin 2021**

**9:00 am – 12:00 pm**

**Ar M S Teams**

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Barry Argent, Bethan E Jones, Chris Stockport, y Cyng Bobby Feeley, y Cyng Christine Jones (yn bresennol o 10:00 yb), y Cyng Joan Lowe, y Cyng Cheryl Carlisle, y Cyng Dafydd Meurig, Estelle Hitchon, Delyth Lloyd-Williams, Fôn Roberts, Helen Corcoran (yn bresennol o 9:20 yb), Jenny Williams (yn bresennol o 9:45 yb), John Gallanders (yn bresennol tan 10:30 yb), John Gladston, Lucy Reid, Neil Ayling (yn bresennol o 10:00 yb), Nicola Stubbins (yn bresennol tan 10:00 yb), Paul Scott, Rob Smith, Shan Lloyd Williams (yn bresennol o 9:30 yb), Sian Tomos (yn bresennol ar ran Roma Hooper a Meinir Williams-Jones), Teresa Owen
Ymddiheuriadau:	Y Cyng Llinos Medi Huws, Dr Lowri Brown, Ffion Johnstone, Jo Whitehead, Mark Wilkinson, Meinir Williams-Jones, Morwena Edwards, Roma Hooper, Sam Parry
Hefyd yn bresennol:	Amanda Lonsdale, Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (eitem 4 ar y rhaglen) Einir Price, Polisi Awtistiaeth LIC (eitem 7 ar y rhaglen) Wendy Thomas, Arweinydd Proffesiynol Cenedlaethol Awtistiaeth, CLILC (eitem 7 ar y rhaglen) Christine Burns, Rheolwr Gwasanaeth, Tîm Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru (eitem 7 ar y rhaglen) Sioned Thomas, Swyddog Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol – Gogledd a Chanolbarth Cymru (eitem 7 ar y rhaglen) Yr Athro Nicky Callow, Dean, Coleg y Gwyddorau Dynol, Prifysgol Bangor (eitem 9 ar y rhaglen)

Eitem		Camau Gweithredu
1.	<u>Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau.</u> Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb. Gwnaed cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.	

	Nododd y cadeirydd y newidiadau o fewn swyddi Cabinet CBSC a diolchodd yn ffurfiol i'r Cyng Louise Emery am roi o'i hamser i fod yn aelod o'r Bwrdd. Rhoddwyd croeso cynnes i'r Cyng Cheryl Carlisle.	Llythyr i'r Cyng LE - RW
2.	<p><u>Nodiadau a champau gweithredu'r cyfarfod diwethaf - Mai 2021</u> Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14.5.2021 yn gywir.</p> <p>Camau gweithredu a gwblhawyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhannu ffigurau brechu Gogledd Cymru a'r nifer sy'n dewis peidio â derbyn y brechlyn wedi'u rhannu fesul clwstwr</li> <li>• Rhannu diweddariad blynyddol rhanbarthol VAWDASV ac anfon yr enwau cyswllt at RE</li> <li>• JGal i gysylltu â Dr GR.</li> <li>• Rhannu adroddiad BAHW LIC gydag aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.</li> <li>• MTJW – rhannu dolen i'r modiwlau ar-lein</li> </ul> <p>Camau sydd eto i'w cwblhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dosbarthu llythyr PB i LIC a'r ymateb ar ôl ei dderbyn - <i>Rydym yn aros am ymateb gan LIC – RW</i></li> </ul> <p>Plattform Cyfieithu a HGC – Rhoddodd HC wybod bod trafodaethau mewn perthynas â diogelwch plattform Zoom yn parhau a bod trafodaethau wedi'u cynnal yng nghyfarfod Traws Sector y Prif Swyddogion Gweithredol. Bydd HC yn rhoi gwybod unwaith y bydd canllawiau clir wedi'u cadarnhau.</p> <p>Nododd NS bod Prif Swyddogion Gweithredol wedi cael gwybod bod Microsoft yn diweddarau'r swyddogaeth cyfieithu ar y plattform, a rhagwelir y bydd yr opsiwn hwn ar gael ym mis Ionawr 2022.</p>	CR i roi diweddariad ar y cynnydd yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.
3.	<p><u>Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru</u> Mae'r fersiwn Saesneg derfynol Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2020-2021 yn cael ei chyflwyno heddiw i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ei chymeradwyo. Mae'r adroddiad Cymraeg yn cael ei gyfieithu ar hyn o bryd ac mae disgwyl y bydd wedi'i gwblhau erbyn yr wythnos nesaf.</p> <p>Bydd cymeradwyaeth gan aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn galluogi partneriaid statudol i roi'r adroddiad blynyddol trwy eu proses lywodraethu neu wleidyddol a bydd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan <a href="https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/">https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/</a></p> <p>Roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cytuno y dylid cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Bwrdd.</p>	<p>Anfon at LIC erbyn 30.06.2021 - RW</p> <p>Rhannu adroddiadau terfynol er mwyn galluogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w rhoi trwy eu proses wleidyddol</p>
4.	<p><u>Dementia - Amanda Lonsdale</u> <u>Adroddiad Diweddarau'r Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol</u></p>	

Rhoddodd AL drosolwg i'r bwrdd o gynnydd y Grŵp Llywio Dementia a gweithrediad Strategaeth Dementia Gogledd Cymru.

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith a gwblhawyd ers Ionawr 2021 a gaiff ei oruchwylio gan y Grŵp Llywio Dementia a'r cynllun gweithredu 12 mis 2021-2022 a gaiff ei oruchwylio gan y Grŵp Llywio Dementia Rhanbarthol, ac mae hefyd yn ystyried goblygiadau ariannol a gweithrediad y Safonau Dementia Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae Strategaeth Dementia Gogledd Cymru wedi cael ei mabwysiadu gan bartneriaid a'i rhannu'n eang i gael ei gweithredu. Dechreuodd y Rheolwr Prosiect Rhanbarthol yn ei swydd ar 1.1.2021, cynhaliodd y Grŵp Llywio Dementia ei gyfarfod gweithredu Strategaeth Dementia Gogledd Cymru cyntaf ym mis Chwefror, sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol ar draws y rhanbarth, gan gynnwys:

- Diwygio'r Cylch Gorchwyl a'r aelodaeth – i gynnwys gweithredu'r Strategaeth Dementia rhanbarthol ac arloesi. Mae'r grŵp wedi ymestyn ei aelodaeth i gynnwys cynrychiolaeth Prifysgol Bangor ac Ymgynghorwyr Nyrsys Dementia o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Adolygu effaith Covid-19 ar Strategaeth Dementia'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – i gadarnhau bod yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn parhau i fod yn addas i'r diben
- Cynllunio, Hysbysebu a Recriwtio i Swydd Dementia Cenedlaethol – mae Rheolwr Prosiect arall wedi dechrau yn y swydd ar 1.6.2021, i weithio ar draws sir Powys, a bydd y rôl yn canolbwyntio ar yr effaith yng nghefn gwlad a chynnig yr iaith Gymraeg i'r rheiny â dementia a'u gofalwyr
- Proses Ymgeisio ar gyfer Llithriant – mae proses glir ar waith sy'n adrodd ar lithriant Dementia'r Gronfa Gofal Integredig a'r canlyniadau cyllid
- Datblygu Fforwm Ymgysylltiad Dementia a Fforwm Trydydd Sector – i ymgysylltu'n llawn â'r Grŵp Llywio Dementia a sicrhau bod y strategaeth yn cael ei gweithredu'n gywir ac mewn modd dylanwadol ar draws y rhanbarth
- Mapio Cyfleodd ac Anghenion i Weithredu'r Strategaeth – crëwyd cynllun gweithredu ar gyfer y 12 mis nesaf, yn nodi cyfleodd o fewn y rhanbarth a'r angen i fynd i'r afael â materion arbennig sy'n cael effaith ar y rheiny sydd â dementia a'u gofalwyr ar frys.

Nododd LR *Gam Gweithredu 20: Cyflwyno map/llwybr gwasanaeth hawdd ei ddefnyddio a gaiff ei gynhyrchu ar y cyd ac yn lleol yn ogystal ag adnoddau i gefnogi eraill yn dilyn diagnosis*, a gofynnodd a oedd y Tîm Dementia'n gweithio gyda Meddygon Teulu ar y ffordd orau i gael mynediad at y llwybr atgyfeirio at wasanaethau.

Rhoddodd AL wybod fod angen i bawb weithio ar y cyd yn y maes hwn, bydd ymgysylltu yn allweddol ac yn derbyn sylw yn y dyfodol.

Nododd y Cyng BF y broblem o ran seibiant i ofalwyr nad ydynt yn derbyn tâl sy'n gwneud gwaith gwych yn gofalu am aelodau o'u teulu

	<p>sydd â dementia, a gofynnodd sut y bydd y canlyniadau'n cael eu mesur.</p> <p>Rhoddodd AL wybod y bydd adborth yn cael ei gasglu gan ofalwyr yn ogystal â chleifion ac y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ar y cyd ar draws Gogledd Cymru â phartneriaid yng <i>Ngham Gweithredu 31: Gwasanaethau comisiynu ar y cyd lle bynnag y bo modd (Seibiant Gofalwyr)</i>, parhau i ddatblygu a gwella gwasanaethau seibiant o ganlyniad i adborth a dderbynnir gan ofalwyr.</p> <p>Awgrymodd y Cyng JL y dylid darparu adroddiadau diweddarau rheolaidd ar y cynllun gweithredu, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd, i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wrth i'r gwaith ddatblygu ar raddfa wahanol ym mhob rhanbarth.</p> <p>Nododd PS y byddai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn awyddus iawn i ymgysylltu ar unrhyw faterion a nodwyd o fewn <i>Cam Gweithredu 27: Gweithio gyda gwasanaethau brys i gefnogi pobl a effeithir gan ddementia</i>.</p> <p>Cytunodd y Bwrdd i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi datblygiad a chyfeiriad y grŵp llywio dementia.</li> <li>• Nodi'r cyfleoedd i fynd i'r afael â'r risgiau mewn perthynas â gweithredu'r Strategaeth Dementia a'r Safonau Dementia yn 2022-23.</li> </ul> <p><u>Adroddiad Safonau Dementia</u></p> <p>Soniodd AL am Safonau Dementia Cymru Gyfan, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, sy'n cynnwys 20 safon a fydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal dementia yng Nghymru.</p>	<p>Cynnwys ar Gynllun Gwaith y Bwrdd - RW</p> <p>Rhannu manylion cyswllt - RW</p>
<p>5.</p>	<p><u>Is-grŵp Plant Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru - Fôn Roberts/Bethan E Jones</u></p> <p>Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan FR ar ofyniad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol dan Adran 9 yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu gyda, a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.</p> <p>Mae'r papur briffio'n egluro'r pwrpas ac yn gofyn i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru gymeradwyo'r 4 argymhellid, er mwyn datblygu gwaith ymarfer mapio.</p> <p>Nododd BEJ bod barn aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei cheisio ar aelodaeth yr is-grŵp Plant; a gofynnodd a oedd aelodau'n cytuno â'r aelodaeth a argymhellir yn y Cylch Gorchwyl drafft, a dywedodd y byddai'n croesawu unrhyw awgrymiadau o ran aelodau eraill i'w cynnwys ar y grŵp.</p>	

	<p>Nododd TO ei bod yn gefnogol o'r is-grŵp ac awgrymodd y dylid ystyried y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo fel rhan o'r gwaith mapio ar draws y rhanbarth h.y. gordewdra fel achos pryder, roedd hi hefyd yn cefnogi'r ymdrechion i gryfhau llais y plentyn yn y gwaith.</p> <p>Awgrymodd MW y dylid cael cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Darparwyr Plant a chytunodd MW i ddarparu manylion cyswllt.</p> <p>Awgrymodd DL-W y dylai cynrychiolydd gofalwyr ifanc fod ynghlwm â'r grŵp hwn a chytunodd i ddarparu cyswllt y tu allan i'r cyfarfod.</p> <p>Rhoddodd aelodau'r Bwrdd Partneriaid Rhanbarthol, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wybod eu bod yn cytuno i gael eu galw yn ôl yr angen ar y grŵp hwn, pan fydd rhaid.</p> <p>Rhoddodd HC wybod fod Heddlu Gogledd Cymru wedi recriwtio Swyddog Ymgysylltu ac Ymyrraeth Pobl Ifanc yn ddiweddar, a byddant yn anfon y manylion cyswllt ymlaen unwaith y bydd y swyddog wedi dechrau'r swydd ar 28 Mehefin 2021.</p> <p>Cytunodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i gymeradwyo'r argymhellion isod:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cytuno i fwrw ymlaen ag is-grŵp Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i Blant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd.</li> <li>2. Mapio cyfarfodydd presennol er mwyn osgoi dyblygiad.</li> <li>3. Cytuno ar aelodaeth yr is-grŵp.</li> <li>4. Cytuno ar y fframwaith ar gyfer ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc, gan sefydlu dull Hawliau Plant. Datblygu strwythurau llywodraethu ac adrodd clir.</li> </ol>	<p>MWim i ddarparu manylion</p> <p>DL-W i ddarparu manylion</p> <p>HC i ddarparu manylion</p>
<p>6.</p>	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf am waith adfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Chris Stockport</u></p> <p>Rhoddodd CS ddiweddariad ar lafar i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a chymerodd y cyfle i ddiolch i'r cydweithwyr rhanbarthol sydd wedi cynorthwyo a chydweithio i gefnogi ei gilydd drwy gydol y pandemig.</p> <p>Tra bod rhagor o ffocws ar ddychwelyd i 'fusnes fel arfer' yn unol â GIG Cymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio i fynd i'r afael â'r ôl-groniad sylweddol ac yn canolbwyntio ar adfer. Mae Covid yn parhau i gyflwyno heriau h.y. Cyfarpar Diogelu Personol a llai o gapasiti gwlâu, gyda rhagor o wylidwriaeth yn sgil yr amrywiolyn Delta.</p> <p>Roedd uchafbwyntiau'r gwaith adfer yn canolbwyntio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Galw ar Ofal heb ei Drefnu – Mae'r Gwasanaeth Argyfwng a Thu Allan i Oriau wedi dychwelyd i'r arfer ar draws y 3 prif safle ysbyty. Nodir bod rhai pryderon ynghylch y niferoedd uchel o ymwelwyr a ddisgwylir yn yr ardal dros yr haf a pha mor anodd yw rhagweld y lefel o Ofal heb ei Drefnu dros yr haf / dim blaenoriaeth wedi'i nodi</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Atgyfeiriadau rheolaidd at Ofal Eilaidd – cynnydd mewn atgyfeiriadau, ynghyd ag ôl-groniad o weithgarwch i ymdrin â hwy. Er bod cyllid ar gael gan LIC, y prif bryder yw'r broblem mewn perthynas â chapasiti gwllâu a'r gweithlu, ac nid oes modd eu cynyddu'n gyflym i fodloni'r galw hwn.</li> <li>• Mae gwaith yn mynd rhagddo i adfer yn raddol – gan flaenoriaethu'r meysydd sydd o fwyaf o bryder: Diagnostig, Orthopedig, Cataractau, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc /Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion (Iechyd Meddwl mewn perthynas â Covid)</li> <li>• Gofal Sylfaenol – mae gwaith wedi parhau drwy gydol Covid ac o ganlyniad i newidiadau i reoli'r risg, mae'r gwasanaeth hefyd yn ymdrin ag ôl-groniad o weithgarwch.</li> </ul> <p>Cymerodd y Cyng BF y cyfle i bwysleisio pwysigrwydd gwiriadau rheolaidd am bob cyflwr cyffredin, er y gwerthfawrogwyd y platfformau ar-lein yn ystod y pandemig, nid yw platfformau ar-lein bob amser yn cynnig y gwasanaeth gorau i'r unigolyn, a phwysleisiodd pa mor bwysig yw ail ddechrau cynnig gwasanaethau wyneb yn wyneb arferol.</p>	
7.	<p><u>Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig</u>  <u>Diweddariad Awtistiaeth Strategol Cenedlaethol - Einir Price, Polisi</u>  <u>Awtistiaeth LIC ac Wendy Thomas, Arweinydd Proffesiynol</u>  <u>Cenedlaethol Awtistiaeth</u></p> <p>I ddechrau, darparodd WT ddiweddariad ar ddatblygiadau tîm y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Cenedlaethol ers mis Tachwedd 2020:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff y tîm ei ariannu gan LIC a'i gynnal gan y CLILC, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan weithio mewn partneriaeth agos gyda LIC, ALI ac arweinwyr Awtistiaeth Byrddau Iechyd Lleol, budd-ddeiliaid allweddol a grwpiau ymgynghorol, gan weithio ar draws bob oedran a phob agwedd o fywydau pobl</li> <li>• Cysylltiad â'r Diwygiad ADY – Mae Addysg yn rhan allweddol o Awtistiaeth yng Nghymru</li> <li>• Mae'r wefan newydd yn cynnwys adnoddau hygyrch a defnyddiol i unigolion ag Awtistiaeth, rhieni a gofalwyr, a gellir eu lawrlwytho am ddim</li> <li>• Roedd y gwaith a gwblhawyd yn ystod Covid yn canolbwyntio ar sicrhau fod y wybodaeth ar y wefan yn gyfredol, cywir ac yn hygyrch i unigolion ag Awtistiaeth.</li> </ul> <p>Rhoddodd Einir Price ddiweddariad ar God Ymarfer Statudol y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig:  Yn dilyn ymgysylltiad helaeth â budd-ddeiliaid a phobl ag awtistiaeth, cyflwynwyd y Cod Ymarfer i LIC ym mis Mawrth 2021. Rydym yn disgwyl canlyniad gan LIC yn fuan, ac mae disgwyl i'r canllawiau gael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf a'u gweithredu erbyn mis Medi 2021.</p> <p>Rhoddodd EP wybod fod y dyletswyddau allweddol ar gyfer Bwrdd</p>	

Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'u cynnwys yn Adran 4 o'r Cod Ymarfer ar ddarpariaeth gwasanaethau awtistiaeth – *Trefniadau ar gyfer Cynllunio a Monitro Gwasanaethau ac Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid.*

Mae dyletswyddau drafft Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol yn cynnwys:

- Cwblhau Asesiad o Anghenion y Boblogaeth ar y cyd a gweithredu cynlluniau ardal, gydag Awtistiaeth fel thema annibynnol.
- Datblygu timau strategol a gweithredol sy'n cynnwys pobl awtistig i lywio datblygiad y gwasanaeth.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion casglu data a monitro Llywodraeth Cymru.

Rhoddodd EP wybod y byddai llythyr yn cael ei anfon ymlaen at Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn egluro gofynion a dyletswyddau'r Bwrdd o ran gweithredu'r Cod Ymarfer.

Y wybodaeth ddiweddaraf am Wasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru - Neil Ayling, Noddwr Arweiniol a Christine Burns, Rheolwr Gwasanaeth, Tîm Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru

Nododd CB fod y pandemig Covid-19 wedi bod yn gyfnod heriol iawn i'r tîm Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig rhanbarthol. Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd ystod eang o hyfforddiant, canolfannau cyngor, gwaith grŵp a therapi cyfeiriol gyda chleientiaid ar-lein. Roedd asesiadau Awtistiaeth ar-lein a gwblhawyd gan aelodau o'r tîm yn cymryd llawer o amser, roedd yn rhaid cynnal 5 neu 6 o apwyntiadau er mwyn cyflawni'r un canlyniad â chyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Mae pob cais i'r gwasanaeth bellach yn cael eu dosbarthu drwy'r Tîm Amlddisgyblaethol wythnosol. Nid oes rhestr aros am gefnogaeth gan fod pob cais o'r fath a dderbynnir gan y tîm yn cael eu clustnodi i weithwyr cyswllt a fydd yn cysylltu dros e-bost, y ffôn, a lle bo modd, drwy Gynadledda Fideo.

Mae'r rhestr aros bresennol ar gyfer profion diagnostig yn unig. Caiff unigolion ar y rhestr eu rheoli yn ôl ansawdd gyda staff y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu dyletswydd gofal i sicrhau fod unigolion yn cael mynediad at y gwasanaeth cywir.

Roedd NA yn cydnabod gwaith timau'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig cenedlaethol a rhanbarthol sydd wedi cael dylanwad sylweddol ar lais y dinesydd ac wedi gweithio gyda phobl â phrofiad bywyd.

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru eisoes â Hyrwyddwr Awtistiaeth (Y Cyng Christine Jones – Dwyrain) ac mae cais am Hyrwyddwr gwirfoddol ar gyfer rhanbarth y Gorllewin wedi cael ei gynnig.

Anfon enwau ymlaen at NA

	<p>Nododd DL-W fel cynrychiolydd gofalwyr Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn ôl yr hyn y mae hi wedi'i glywed gan nifer o deuluoedd, fod codi ymwybyddiaeth yn hynod o bwysig, a'i bod yn ddiolchgar iawn o'r gwaith sy'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae rhai anawsterau'n parhau mewn perthynas ag ymwybyddiaeth uwch weithwyr proffesiynol o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r ALI, a nododd nad oes digon o ddealltwriaeth am awtistiaeth a bod gofalwyr yn blino ar orfod egluro beth yw awtistiaeth.</p> <p>Cadarnhaodd WT fod LIC yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i godi ymwybyddiaeth, a hefyd ynno gweithio gyda nifer o sefydliadau er mwyn cyrraedd safon ymwybyddiaeth awtistiaeth. Hysbysodd WT gynllun peilot rhwng Hywel Dda HB a Gofal Sylfaenol sy'n gweithio i hysbysu gweithwyr proffesiynol o'r garfan hon.</p> <p>Holodd y Cyng BF am ofal seibiant, ac er nad yw tîm y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn ymdrin â gofal seibiant, rhoddodd EP wybod fod LIC wedi sefydlu grŵp tasg a gorffen yn ddiweddar, fel rhan o waith adfer LIC, i ystyried gofal seibiant, ac mae awtistiaeth wedi derbyn gwahoddiad i ystyried gofal seibiant i'r dyfodol.</p> <p>Rhoddodd WT wybod hefyd fod LIC wedi lansio grant ar gyfer seibiant i ofalwyr a dywedodd y byddai hi'n anfon manylion pellach at aelodau.</p>	<p>Anfon e-bost y Cyng BF ymlaen at EP</p>
<p>8.</p>	<p><u>Cronfa Gofal Integredig - Neil Ayling</u>  <u>Adroddiad Ch4 y Gronfa Gofal Integredig 2020-21</u>  Derbyniodd y bwrdd adroddiad diwedd y flwyddyn ar ffrydiau cyllido'r Gronfa Gofal Integredig. Rhoddwyd gwybod bod y ffrydiau cyllido wedi'u gwario'n llawn ac mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys:</p> <p>Refeniw – roedd 119 o'r 120 o brosiectau refeniw naill ai wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn. Diwygiwyd 24 prosiect er mwyn eu darparu'n ddiogel yn ystod y pandemig, ac addaswyd cyllid 1 prosiect i brosiectau a oedd wedi'u diwygio ac angen rhagor o adnoddau.</p> <p>Cyfalaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygwyd 70 o brosiectau y llynedd, mae yna 17 prif gynllun cyfalaf a 53 o gynlluniau cyfalaf yn ôl disgrisiwn, 35 yn gynlluniau Covid-19.</li> <li>• Defnyddiwyd cyllid i gefnogi sefydlu 2 ganolfan asesu preswyl plant isranbarthol, Bwthyn y Ddol ym Mae Colwyn a Tŷ Nyth yn yr Wyddgrug.</li> <li>• Adeiladwyd Canolfan Ddementia integredig ar safle Ysbyty Bryn Beryl, ac ym Mwcle, adeiladwyd estyniad i'r cartref gofal pobl hŷn presennol, Marleyfield, a fydd yn darparu llety ychwanegol a gwasanaethau amlddisgyblaethol.</li> </ul>	

- Yn Wrecsam, datblygwyd eiddo i gynnig amgylcheddau byw pwrpasol ar gyfer 4 unigolyn ag anghenion cymhleth, ymddygiad heriol a/neu awtistiaeth.
  - Yn Llangedfni, adeiladwyd estyniad i gynllun byw â chymorth presennol (Bryn Meurig) i unigolyn ag anghenion cymhleth iawn.
- Cynllun Rhyddhau Covid:
- Cyflwynwyd £2.44 miliwn o gyllid yn 2020/21 a gwariwyd y cyllid hwn yn llawn ar draws 17 cynllun
  - D2RA - Cyflwynwyd £2.238 miliwn o gyllid fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer y gaeaf, defnyddiwyd y cyllid i gefnogi 20 cynllun ar draws y rhanbarth a oedd yn cynnwys ymestyn y gweithlu, gofal cartref ymateb cyflym, darparu ychwaneged a gweithredu cynllun gweithio 7 diwrnod ar gyfer rhai gwasanaethau.

Diolchodd NA i gydweithwyr ar draws y rhanbarth am eu gwaith parhaus ar ffrwd gwaith y Gronfa Gofal Integredig.

Rhaglen Werthuso'r Gronfa Gofal Integredig – Adroddiad Diweddar  
Rhoddodd NA ddiweddariad cryno ar Raglen Werthuso'r Gronfa Gofal Integredig:

- Comisiynodd LIC Old Bell 3 (OB3) i ymgymryd â rhaglen werthuso annibynnol genedlaethol
- Mae OB3 wedi ymgymryd â gwerthusiad bwrdd gwaith i oddeutu 15 prosiect ar gyfer pob rhanbarth (cam 1) ac mae disgwyl i hyn gael ei gwblhau ddiwedd mis Mai 2021.
- Mae'r Tîm Rhanbarthol yn gwerthuso'r 100 o brosiectau sy'n weddill, i'w cwblhau ym mis Mehefin 2021.
- Mae'r Tîm Rhanbarthol ac OB3 wedi cydweithio i sicrhau dull cyson ar draws ffrydiau'r rhaglen werthuso, gan ddefnyddio data ansoddol a meintiol
- Bydd Cam 2 yn cynnwys ymchwilio i nifer fechan o brosiectau ym mhob rhanbarth, gan gynnwys cyfweiliadau manwl gyda defnyddwyr gwasanaeth a staff sy'n darparu'r gwasanaeth. Mae PGOGC a PGPGC wedi derbyn cais i ystyried pa brosiectau fydd yn cael eu cyflwyno ar gyfer y gwaith ymchwil manwl, a bydd hyn yn digwydd ym mis Mehefin/Gorffennaf
- Caiff adroddiadau gwerthuso prosiectau unigol eu bwydo'n ôl i Swyddogion Arweiniol y Gronfa Gofal Integredig wrth iddynt gael eu cwblhau a rhagwelir y bydd pob prosiect wedi derbyn adroddiad erbyn diwedd mis Gorffennaf 2021.
- Mae disgwyl i waith blaenoriaethu'r Strategaeth Gwblhau gael ei gwblhau ddiwedd mis Mehefin ochr yn ochr â'r gwaith gwerthuso. Rhagwelir y bydd pob prosiect yn:
  - (1) Cael eu trefnu i un o'r categorïau hyn:
    1. Gellir dod â'r prosiect i ben a'i gau'n ddiogel.
    2. Parhau â'r prosiect os caiff Cronfa Gofal Integredig/Rhaglenni Trawsnewid newydd neu unrhyw gyllid arall ei gadarnhau
    3. Mae'n rhaid parhau â'r prosiect fel gwasanaeth craidd

(2) Derbyn sgôr COG yn unol â'r canlynol:

	<p>Coch: Datblygu Cynllun Cwblhau dros y 3 mis nesaf  Oren: Datblygu Cynllun Cwblhau dros y 6 mis nesaf  Gwyrdd: Cynllun Cwblhau ar waith / yn ddiangen</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn derbyn crynodeb o waith blaenoriaethu'r strategaeth gwblhau ym mis Gorffennaf 2021</li> </ul> <p>Pwysleisiodd NA hefyd fod cyllid y Gronfa Gofal Integredig yn ategu at nifer o wasanaethau craidd yr ALI</p> <p>Cytunodd y Bwrdd i nodi'r gwaith parhaus a'r cynnydd a wnaed yn gwerthuso rhaglen fuddsoddi Refeniw'r Gronfa Gofal Integredig.</p>	
9.	<p><u>Y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr Academi Dysgu Dwys ALPHAcademy a'r Ysgol Feddygaeth ac Iechyd Rhyngbroffesiynol – Yr Athro Nicky Callow, Dean, Coleg y Gwyddorau Dynol, Prifysgol Bangor</u></p> <p><u>Academi Dysgu Dwys ALPHAcademy</u>  Rhoddodd NC y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar yr Academi Dysgu Dwys ers y tro diwethaf iddo fynychu'r cyfarfod ym mis Gorffennaf 2020:</p> <p>Cyflwynwyd achos busnes llawn yr Academi Dysgu Dwys i LIC ym mis Awst, ac yn dilyn adborth rhagorol gan y panel craffu, dyrannwyd llythyr grant ym mis Rhagfyr 2020. Mae chwe aelod o staff wedi cael eu penodi ers mis Ionawr 2021, gwerthuswyd yr MSc mewn Iechyd Ataliol a Thegwch Iechyd ym mis Mawrth 2021 ac mae'r cyfarfod Bwrdd cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer Gorffennaf 2021.</p> <p>Mae 3 Academi Dysgu Dwys wedi derbyn cyllid; Alpha Academy ym Mhrifysgol Bangor, Academi Iechyd a Gofal yn Seiliedig ar Werthoedd ym Mhrifysgol Abertawe a'r Academi Dysgu Dwys Cymru Gyfan ar gyfer Arloesi mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe, a ddatblygwyd ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Prifysgol Caerdydd a Chomisiwn Bevan. Bydd y 3 Academi Dysgu Dwys yn gweithredu fel canolfannau ar gyfer datblygu sgiliau a rhannu gwybodaeth, ac yn defnyddio ymagwedd Cymru gyfan tuag at ddulliau ataliol a datblygu ymyraethau, annog meddwl creadigol a chefnogi cydweithio ymhlith arweinwyr o fewn Iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a gwyddorau bywyd.</p> <p>Mae rhaglen fframwaith y MSc yn cynnwys credydau micro y gellir eu defnyddio i uwchraddio i Fodiwlau Annibynnol, gan arwain at nifer o lwybrau mynediad gwahanol i gyflawni MSc.</p> <p>Y nod yw datblygu Academi a gaiff ei chydabod yn rhyngwladol, datblygu arweinwyr yng Nghymru sy'n gallu meddwl o safbwynt gwasanaeth a thraws sector, a darparu newid gan ddefnyddio gwybodaeth gadarn a gosod rhwydwaith ac ataliaeth wrth wraidd eu gwaith.</p> <p>Nododd CS ei fod yn cefnogi'r rhaglen hon yn llwyr ac roedd yn</p>	

<p>cydnabod y gwaith sylweddol a gwblhawyd gan Brifysgol Bangor a'r partneriaid ar y darn o waith rhagorol hwn.</p> <p>Holodd NC am y ffordd orau i gael cydnabyddiaeth i'r rhaglen gan bobl allweddol o fewn y rhwydwaith iechyd ac annog pobl i fynychu'r gweithdai.</p> <p>Awgrymodd RS y dylid trafod y fframwaith â'r Byrddau Gwasanaethau Integredig Ardal isranbarthol, er mwyn rhoi cyfle i gydweithwyr iechyd, awdurdod lleol a'r trydydd sector gael eu cynnwys, yn ogystal â'r sector Darparwyr.</p> <p>Rhoddodd NC wybod eu bod yn awyddus i ddechrau â chohort o oddeutu 25 a bod cyllid ar gael ar gyfer y modiwlau ac ysgoloriaethau hyblyg. Cytunodd NC i anfon pamffled ymlaen a'i rannu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p><u>Ysgol Feddygol Gogledd Cymru</u></p> <p>Rhoddodd NC wybod fod Prifysgol Bangor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cefnogi datblygu Ysgol Feddygaeth ac Iechyd yng Ngogledd Cymru erbyn 2025. Bydd yr Ysgol yn adeiladu ar sylfaen o ymchwil dwys a pherthnasol ac yn canolbwyntio ar y diwydiant gyda'r nod o gyflawni effaith drawsnewidiol ar yr economi rhanbarthol yng Ngogledd Cymru. Bydd y datblygiad yn hysbysu addysg, portffolios sgiliau a datblygiad gwasanaeth, ac yn gwella canlyniadau iechyd ac ysgogi uchelgais economaidd.</p> <p>Mae'r sail resymegol ar gyfer Gogledd Cymru'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anawsterau'n ymwneud â recriwtio a chadw gweithwyr meddygol a staff eraill</li> <li>• Llai o ddoctoriaid yn derbyn hyfforddiant nag unrhyw le arall ym Mhrydain</li> <li>• Gwariant uchaf yng Nghymru ar staff asiantaeth a chontractio gofal o dros y ffin</li> <li>• Cyd-destun economaidd ansicr iawn yn dilyn Covid-19 gyda pherygl o anghydraddoldebau iechyd yn ehangu</li> <li>• Poblogaeth sy'n tyfu, gyda phroffil oedran hŷn.</li> <li>• Cynnydd yn nifer yr achosion o gyflyrau iechyd cronig cymhleth.</li> <li>• Prinder doctoriaid sy'n siarad Cymraeg.</li> <li>• Proffil oedran hŷn Meddygon Teulu mewn ardaloedd gwledig.</li> <li>• Nid yw'r gwaith arloesol o fabwysiadu cynnyrch newydd, technolegau, datrysiadau digidol a datblygu gwasanaeth yn digwydd ar y cyflymder neu'r raddfa angenrheidiol.</li> </ul> <p>Mewn ymateb i'r cynnig gan Brifysgol Bangor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi comisiynu Grŵp Tasg a Gorffen i asesu ac ystyried dichonoldeb y cynnig. Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen hefyd wedi amlygu'r angen i archwilio'r meysydd canlynol mewn rhagor o fanylder:</p>	<p>Cylchredeg pamffled gweithdy ADD-RW</p>
---	--

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dadansoddiad manwl ar gyfer cynyddu nifer y myfyrwyr meddygol yng Ngogledd Cymru.</li> <li>• Dadansoddiad ariannol o'r refeniw a chyfalaf sydd eu hangen ar gyfer yr opsiynau dewisol.</li> <li>• Adolygiad o gapasiti'r sir gyfan ar gyfer lleoliad clinigol.</li> <li>• Yr angen i ddatblygu rhagor o leoedd hyfforddiant F1/F2 yn ogystal â llefydd hyfforddiant mwy arbenigol.</li> </ul> <p>Ym mis Chwefror, argymhellodd y Grŵp yr angen am fyfyrwyr meddygol ychwanegol yng Ngogledd Cymru ac mae'r Gweinidog wedi derbyn hyn. Bydd rhagor o waith yn mynd rhagddo i gwblhau'r achos busnes llawn gyda'r targed i'w gwblhau erbyn diwedd yr haf 2021.</p> <p>Gofynnodd y Cyng BF a oedd gofal cymdeithasol wedi'i gynnwys yn y rhaglen a beth oedd y dyddiadau cau a gynigir.</p> <p>Nododd NC yr heriau mewn perthynas â chael achrediad drwy'r Cyngor Meddygol Cyffredinol gyda'r newidiadau arfaethedig i'r cwricwlwm meddygol. O fis Medi 2021, bydd dwy Ysgol yn ymuno i ffurfio un Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Bydd y cwricwlwm newydd yn torri traddodiad ac yn canolbwyntio mwy ar swyddogaethau rhyngbroffesiynol, a fydd yn mynd i'r afael â chanlyniadau gwell o fewn y sector meddygol h.y. agwedd dwyieithog, ymwybyddiaeth o awtistiaeth, a llawer mwy, a bydd gofal cymdeithasol ac iechyd hefyd yn rhan bwysig o'r gwaith hwn. O ran amserlen, rydym yn ystyried 3 ½ blynedd.</p> <p>Diolchodd MW i NC am y diweddariad cynhwysol.</p>	
<p><b>10.</b></p>	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u>  <u>Datblygu Fframwaith ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'r dyfodol</u></p> <p>Rhododd MW wybod bod y papur 'Datblygu Fframwaith i'r Dyfodol ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol' yn deillio o fforwm arweinwyr, cadeiryddion ac is-gadeiryddion rhanbarthol diweddar er mwyn paratoi ar gyfer cyfarfod sydd ar y gweill â'r Gweinidog.</p> <p>Mae aelodau Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cael cyfle i nodi'r themâu a'r gwaith a gwblhawyd yn ogystal â chyflwyno sylwadau erbyn 16.6.2021. Mae'n ymddangos ar hyn o bryd y bydd y papur yn cael ei ddefnyddio i hwyluso'r drafodaeth â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, CLILC a LIC.</p> <p>Unwaith y bydd y papur wedi'i gwblhau, bydd Aelodau Arweiniol yr ALI yn cael cyfle i fynd â'r adroddiad cytunedig drwy eu proses wleidyddol.</p> <p>Cytunodd MW i anfon y sylwadau, tra'n deall nad yw'r adroddiad wedi cael ei ystyried gan etholwyr unigol.</p>	<p>Gyrru sylwadau ymlaen at RW erbyn 16.6.21</p>

	<p>Cytunodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru i nodi'r gwaith a gwblhawyd ar y cyd a chymeradwyo'r themâu cyffredinol o fewn y papur 'Datblygu Fframwaith i'r Dyfodol ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol'.</p> <p><u>Asesiad o Anghenion Fferyllol – Ymgynghoriad Statudol</u> Gwybodaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn ymwneud ag ymgynghoriad ar-lein statudol yr Asesiad o Anghenion Fferyllol.</p>	
	<p><b>Cafodd y dogfennau canlynol eu cynnwys er gwybodaeth:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2021 – 2025 – Terfynol Cymraeg/Saesneg Gofynnodd JGI a fyddai modd ehangu'r adran ar ymgysylltu o fewn y 'grwpiau cydraddoldeb a nodweddion a ddiogelir' o fewn y ddogfen i ddangos y camau gweithredu a gymerwyd ym mhob un o'r meysydd.</li> <li>2. Llwybr Safonau Gofal Dementia ar gyfer Cymru Gyfan</li> </ol>	<p>CR i drafod â Swyddog Ymgysylltu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a chysylltu â JGI</p>
	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener, 9 Gorffennaf, 9:00 – 12:00</p>	